# RHYS FARDD ('Y Bardd Bach,' ' Bardd Cwsg') (fl. c. 1460-80), brudiwr

**Enw:** Rhys Fardd
**Ffugenw:** Y Bardd Bach, Bardd Cwsg
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** brudiwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** David James Bowen

o Ystum Llwynarth (Pen. MS. 94 (175), Llanst MS. 119 (121). Perthyn llawer iawn o ddaroganau a briodolir iddo i gyfnod blaenoriaeth y Tuduriaid, serch yr ymddengys rhai fel pe'n perthyn i gyfnod cynharach. Nodweddir ei waith gan ddisgwyl y brudwyr am Owain i waredu'r genedl, a chan gasineb chwerw tuag at y Saeson : ' yna y mai melineu kyminot or frydieu o waet.' Y mae dylanwad ' Armes Prydain ' yn drwm ar un ddarogan a briodolir iddo, ac y mae'n bosibl fod dylanwad ' *Efengyl Dragwyddol* ' Joachim ar un arall. Priodolir tua 90 o ddaroganau iddo.

## Awdur

**Yr Athro David James Bowen**

## Ffynonellau


M. E. Griffiths, *Early Vaticinatory Material in Welsh* (Aberystwyth 1927)

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361379


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu